**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/JH/2117/12

Rosemary Butler AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Mai 2012

Annwyl Rosemary,

**Araith y Frenhines 2012**

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Frenhines raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2012 – 2013 yn Ei Haraith i Ddau Dŷ'r Senedd ar 9 Mai. Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi am oblygiadau disgwyliedig y rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig ar gyfer busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i'r pwerau a ganiateir i Weinidogion Cymru yn neddfau'r DU, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar y byddai'n fodlon mabwysiadu'r arfer o ysgrifennu at y Llywydd, ar ôl Araith y Frenhines, ynglŷn â chynnwys rhaglen ddeddfwriaethol newydd Llywodraeth y DU a'i goblygiadau i'r Cynulliad. Hwn, felly, yw'r llythyr cyntaf yn anrhydeddu'r ymrwymiad hwnnw.

Rhaglen Ddeddfwriaethol ar gyfer Ail Sesiwn tymor Llywodraeth Glymblaid y DU, y disgwylir iddi bara rhyw 11 mis, yw'r un a gyhoeddwyd gan Ei Mawrhydi ar 9 Mai. Mae hyn gryn dipyn yn llai na Sesiwn Gyntaf y Llywodraeth, a barodd bron i 2 flynedd.

Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr fod penderfyniadau deddfu a wneir yn San Steffan yn ystyried buddiannau Cymru, a'i bod yn dilyn y Canllawiau ar Ddatganoli a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno na fydd, fel rheol, yn llunio deddfwriaeth yn ymwneud â Chymru ar bynciau sy'n perthyn i gwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, heb ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hon yn egwyddor bwysig, sydd wedi ennill ei phlwyf yn fuan iawn fel arfer pwysig sydd wrth wraidd ein setliad datganoli, ac yn rhoi parch dyledus i'r Cynulliad fel corff deddfu cyflawn sydd â mandad democrataidd pobl Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r Cynulliad ddylai lunio deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig fel arfer. Ond fel yr oedd tystiolaeth ysgrifenedig Prif Weinidog Cymru i ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn egluro, ceir amgylchiadau pan fo'n ddoeth ac yn fanteisiol cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru, a fyddai fel arall o fewn cymhwysedd y Cynulliad, ym Miliau Senedd y DU. Mewn achosion o'r fath, bydd Llywodraeth y DU, wrth ddeddfu ar y materion hyn yng Nghymru, yn gofyn caniatâd y Cynulliad drwy gyfrwng Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a roddir gerbron y Cynulliad, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Cyhoeddwyd yn Araith y Frenhines fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno 15 Bil a 4 Bil Drafft yn Ail Sesiwn y Senedd. Bydd amryw o'r Biliau yn gymwys i Gymru ac yn cael effaith yng Nghymru mewn meysydd polisi nad ydynt wedi'u datganoli, sy'n golygu nad oes angen caniatâd y Cynulliad. Un enghraifft yw Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cymeradwyo Penderfyniad i Ddiwygio'r Cytuniad), a gyflwynwyd yn y Senedd yn ddiweddar. Bydd eraill, fodd bynnag, yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â Chymru sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad, sy'n golygu y bydd angen rhoi Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad. Bydd rhwng pedwar ac wyth Bil yn cynnwys darpariaethau o'r fath, yn ôl pob tebyg, er y byddwn yn cadw golwg ar yr angen am ganiatâd, ac y gallai'r sefyllfa newid pan fyddwn wedi cael cyfle i graffu ar destunau'r Biliau unigol.

Mae'r Biliau canlynol wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n debygol o gynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru, a all olygu y bydd angen cydsyniad y Cynulliad. Yn achos Biliau drafft, bydd cyfle, wrth gwrs, i'r Cynulliad ystyried eu darpariaethau yn fanwl yn ystod y cyfnod craffu cyn y broses ddeddfu, a chyfrannu at gynnwys y darpariaethau sy'n effeithio ar Gymru cyn i bob Bil gael ei gyflwyno.

**Y Bil Ynni**
Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd y Bil hwn yn darparu ar gyfer diwygio'r farchnad drydan er mwyn gallu buddsoddi'n helaeth yng ngallu'r DU i gynhyrchu ynni carbon isel a sicrhau cyflenwad diogel. Er nad yw cynhyrchu, trosglwyddo, dosbarthu na chyflenwi trydan wedi'u datganoli yng Nghymru, mae agweddau ar y polisi amddiffyn yr amgylchedd wedi'u datganoli ac felly mae'n bosibl y bydd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer mesurau perthnasol o fewn y Bil hwn.

**Y Bil Dŵr Drafft**
Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd y Bil drafft hwn yn cyflwyno pecyn o ddiwygiadau i'r farchnad dŵr a charthffosiaeth, ac yn gwella gallu'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr i reoleiddio cwmnïau dŵr wrth i'r farchnad ddatblygu i fod yn fwy cystadleuol. Mae'n debyg y bydd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer yr holl gynigion yn y Bil Dŵr drafft oherwydd y ffordd y mae'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr.

**Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio**
Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi mai nod y Bil hwn fydd creu'r amodau cywir ar gyfer adfer yr economi trwy gryfhau'r amgylchedd busnes, trwy leihau'r baich o ran rheoleiddio a thrwy ddarparu gwell cyngor i fusnesau a defnyddwyr. Mae'n bosibl y bydd y ffaith y bydd rhai deddfau diangen yn cael eu diddymu, a chynigion posibl eraill yn y Bil, yn golygu bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Y Bil Plant a Theuluoedd**
Dywedodd Llywodraeth y DU mai pwrpas y Bil hwn yw chwalu'r rhwystrau sy'n atal rhieni a gofalwyr rhag cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen, a'i gwneud yn haws i rieni rannu cyfrifoldebau gofal; rhoi mwy o reolaeth a dewis i rieni o ran gofal arbenigol i blant ag anghenion addysgol arbennig; a chynnal y plant hynny sydd fwyaf agored i niwed, gan

gynnwys y rheini sydd mewn gofal neu y mae eu rhieni wedi gwahanu. Mae'r Bil yn cynnwys cymysgedd o ddarpariaethau polisi datganoledig a darpariaethau polisi sydd heb eu datganoli. Bydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau mewn meysydd a ddatganolwyd i Gymru, fel y rhai sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig, yn gymwys i Loegr yn unig. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn trafod â Gweinidogion Cymru a ddylai darpariaethau yn ymwneud â mabwysiadu fod yn gymwys i Gymru hefyd. Mae gan Lywodraeth Cymru ei hagenda ei hun ar gyfer diwygio trefniadau mabwysiadu, a bwriadwn fynd â'r agenda honno yn ei blaen drwy ein deddfwriaeth ein hunain ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd angen inni hefyd ystyried goblygiadau unrhyw orgyffwrdd rhwng y Bil hwn gan Lywodraeth y DU a deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol, fodd bynnag, yn enwedig mewn perthynas â materion trawsffiniol sy'n ymwneud â mabwysiadu. Mae'n bosibl, felly, y bydd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn.

**Y Bil Gofal a Chymorth Drafft**

Pwrpas y Bil drafft hwn fydd nodi'r gefnogaeth y gallai pobl yn Lloegr ei disgwyl oddi wrth Lywodraeth y DU a'r camau y byddai Llywodraeth y DU yn eu cymryd i'w helpu i gynllunio, i baratoi ac i wneud dewisiadau gwybodus am eu gofal. Gwneud y broses yn fwy eglur a'i gwneud yn haws derbyn gofal a chefnogaeth fyddai'r nod. Er mai Bil ar gyfer Lloegr yn unig yw hwn, bydd angen inni ystyried yr agweddau trawsffiniol, o gofio bod gofal yn cael ei ddarparu ar y naill ochr a'r llall i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr i bobl sy'n byw dros y ffin neu'n teithio ar ei thraws. Unwaith eto, mae posibilrwydd y bydd darpariaethau'r Bil drafft hwn gan Lywodraeth y DU a deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol yn gorgyffwrdd, yn enwedig mewn perthynas â materion trawsffiniol.

Unwaith y bydd pob Bil wedi'i gyflwyno yn Senedd y DU, byddwn yn ei ystyried yn llawn a bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno unrhyw Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol angenrheidiol fel y gellir craffu arnynt yn briodol, cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu rhoi ei gydsyniad neu beidio. Yn ddelfrydol dylai pob mater yn ymwneud â chydsyniad fod wedi'i ystyried erbyn i'r Bil gyrraedd y cam gwelliannau terfynol, wrth gael ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin am y tro cyntaf. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, mae'n anorfod y bydd gwelliannau i'r Biliau yn cael eu cyflwyno'n hwyr yn y broses Seneddol. O dan yr amgylchiadau hynny byddwn yn ymdrechu i sicrhau y bydd unrhyw welliannau sydd â goblygiadau i'r Cynulliad, o ran cydsyniad, yn cael eu dwyn i sylw'r Cynulliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny.

Wrth i gynnwys manwl Biliau arfaethedig Llywodraeth y DU ddod yn eglur, mae'n debyg y byddwn yn nodi cyfleoedd ychwanegol i ddeddfu ar gyfer Cymru, neu'n nodi darpariaethau sy'n rhannol neu'n llwyr berthnasol i gymhwysedd y Cynulliad sy'n golygu, felly, fod angen cydsyniad y Cynulliad. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU i bwyso a mesur cyfleoedd o'r fath. Bydd unrhyw gynigion ychwanegol o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw welliannau perthnasol i Filiau Llywodraeth y DU, yn cael eu dwyn i sylw'r Cynulliad Cenedlaethol wrth iddynt ymddangos.

Yn gywir,

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House